Hewl. **G**

Mae'r hewl yn galw heno, wna'i ddim eu dilyn hi,
Mae'n ddigon i fod yma, a chael dy nabod di.
Fe glywi'r rhai yr alwad i grwydro broydd byd,
Mae'n ddigon i mi yma, i gael dy 'nabod di.

Mae ambell un yn gad'el am lefydd dros y lli,
I grwydro broydd arall sy'n ddierth iawn i mi.
Fe'u clywir hwy yn canu am ddod ynol rhyw dro,
Ymweld â'r hen gynefin, i ail ymweld â'u bro.

Sefyll, i wylio'r byd a'i bethau
Aros, yn llonydd ac yn llon.
Teimlo, y curiad sydd mewn calon,
Bodlon, bod yma'r eiliad hon.

Mae'r hewl yn galw beunydd i ddilyn llwybre pell,
A'r streion sydd yn addo fod yna bethe gwell.
Mae'n bosib treulio bywyd yn chwilio'r hyn y sy',
(Ond) mae digon i mi yma i gael dy nabod di.

Sefyll, i wylio'r byd a'i bethau
Aros, yn llonydd ac yn llon.
Teimlo, y curiad sydd mewn calon,
Bodlon, bod yma'r eiliad hon.
Gwylio, y traeth mewn trai a llanw,
Cyfri, y sêr ar noson ddu.
Teimlo, awel fwyn o'r mynydd,
Digon yw cael dy nabod di.